

Tawelu Ymwybodol

Ysbyty Deintyddol y Brifysgol

Beth yw 'tawelu ymwybodol'?

Mae tawelu ymwybodol yn dechneg lle mae cyffur, neu gyffuriau, yn cael eu defnyddio i wneud i rywun deimlo'n llawer llai pryderus am driniaeth ddeintyddol heb fod angen eu rhoi i gysgu.

Pwy all gael tawelydd ymwybodol ?

Mae tawelu ymwybodol yn effeithiol i lawer o bobl ac ar gyfer sawl math o driniaeth. Mae cael eich rhoi i gysgu yn cael ei ddefnyddio llawer llai ar gyfer gofal deintyddol y dyddiau hyn oherwydd bod tawelyddion mor effeithiol.

- Plant sy'n bryderus am ofal deintyddol
- Pobl ifanc sy'n bryderus am ofal deintyddol
- Oedolion sy'n bryderus am ofal deintyddol
- Oedolion sy'n cael triniaethau hirfaith
- Oedolion sy'n cael llawdriniaethau
- Oedolion ag anabledau dysgu, anhwylderau symud neu sydd â chyflwr meddygol sy'n cael ei waethygu gan bryder deintyddol

Ble mae tawelu ymwybodol yn digwydd?

Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ac Ymarfer Deintyddol Cyffredinol i sicrhau bod eich triniaeth dawelu yn cael ei rhoi yn y lle iawn gan y bobl iawn.

- Ysbyty Deintyddol y Brifysgol
- Ysbyty'r Barri
- Ysbyty Dewi Sant
- Ysbyty Llandochau
- Tawelydd y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol

Pa driniaeth y gallaf ei chael o dan dawelydd?

Mae llawer o fathau o driniaeth ddeintyddol yn bosibl o dan dawelydd ymwybodol. Bydd eich deintydd yn gallu trafod y rhain gyda chi.

Pwy sy'n rhoi'r tawelydd?

Gall deintydd, therapydd deintyddol neu hylenydd deintyddol roi tawelydd. Weithiau bydd anesthetidd yn rhoi'r tawelydd. Mae gan ein tîm tawelu hefyd nifer o nyrsys deintyddol hyfforddedig a phrofiadol iawn sy'n cefnogi gofal ein cleifion.

Sut allai i drefnu cael tawelydd?

Siaradwch â'r deintydd neu glinigwr arall am opsiynau tawelu os ydych yn yr ysbyty deintyddol i gael asesiad neu driniaeth. Fel arall, gall eich deintydd neu eich meddyg teulu eich atgyfeirio atom ni.